

**2017 Rhif** (Cy. )

**2017 No.** (W. )

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r  
A40 (Abergwaun, Sir Benfro)  
(Terfyn Cyflymder 20 mya) 2017

The A487 & A40 Trunk Roads  
(Fishguard, Pembrokeshire) (20  
mph Speed Limit) Order 2017

*Gwnaed* 31 Ionawr 2017

*Made* 31 January 2017

*Yn dod i rym* 6 Chwefror 2017

*Coming into force* 6 February 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) a'r darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) (“y cefnffyrdd”), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the Fishguard – Bangor Trunk Road (A487) and the relevant length of the London – Fishguard Trunk Road (A40) (“the trunk roads”), in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**Title, Interpretation and Commencement**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Chwefror 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 20 mya) 2017.

1. This Order comes into force on 6 February 2017 and its title is The A487 & A40 Trunk Roads (Fishguard, Pembrokeshire) (20 mph Speed Limit) Order 2017.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

- 
- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weimidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefinol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).
- (1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 20 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwysu

5. Nid yw'r cyfyngiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig

31 Ionawr 2017

*Nina Ley*  
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the home forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director.

### Restrictions

3. No person shall drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person shall drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

### Application

5. The restrictions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers

Dated

31 January 2017

*Nina Ley*  
Head of Business Unit, Network Management  
Welsh Government

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **Terfyn cyflymder 20 mya Llawnamser**

Y darn o gefnffordd yr A487 yn Abergwaun, Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 18 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Clive Road hyd at bwynt 70 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Tower Hill, gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol Cylchfan Sgwâr Abergwaun.

Y darn o gefnffordd yr A40 yn Abergwaun, Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 180 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.

### **ATODLEN 2**

#### **Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser**

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw y Byrgam, Abergwaun, Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 55 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Dewi hyd at bwynt 18 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Clive Road.

## **SCHEDULES**

### **SCHEDULE 1**

#### **Full-time 20 mph Speed Limit**

The length of the A487 trunk road at Fishguard, Pembrokeshire that extends from a point 18 metres north-west of the centre-point of its junction with Clive Road to a point 70 metres north-east of the centre-point of its junction with Tower Hill, including the circulatory carriageway of Fishguard Square Roundabout.

The length of the A40 trunk road at Fishguard, Pembrokeshire that extends from a point 180 metres south-west of its junction with Fishguard Square Roundabout to its junction with that roundabout.

### **SCHEDULE 2**

#### **Part-time 20 mph Speed Limit**

The length of the A487 trunk road known as Vergam Terrace, Fishguard, Pembrokeshire that extends from a point 55 metres north-west of the centre-point of its junction with Heol Dewi to a point 18 metres north-west of the centre-point of its junction with Clive Road.

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A487 A'R  
A40 (ABERGWAUN, SIR BENFRO) (TERFYN  
CYFLYMDER 20 MYA) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 6 Chwefror 2017.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder 20 mya llawnamser ar y darnau o gefnffyrdd yr A487 a'r A40 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn a chyflwyno terfyn cyflymder 20 mya rhan-amser ar y darn o gefnffordd yr A487 a bennir yn Atodlen 2.

Mae angen y terfyn cyflymder 20 mya llawnamser er mwyn gwella diogelwch cerddwyr oherwydd bod lled y cerbyttfyrdd a'r troedffyrdd yn gyfyngedig ar hyd y darnau penodedig o'r cefnffyrdd.

Mae angen y terfyn cyflymder 20 mya rhan-amser i ostwng cyflymder traffig ger Ysgol Bro Gwaun ac Ysgol Gynradd Gatholig Yr Enw Sanctaidd. Dim ond yn ystod cyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn y tymor ysgol y bydd y terfyn cyflymder hwn yn gymwys ac ni ddisgwylir iddo fod yn weithredol ar benwythnosau.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 31 Ionawr 2017 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Abergwaun, Neuadd y Dref, Sgwâr y Farchnad, Abergwaun SA65 9HA neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1271957/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2017).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A487 & A40 TRUNK ROADS  
(FISHGUARD, PEMBROKESHIRE) (20 MPH  
SPEED LIMIT) ORDER 2017**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under section 84(1), 1(A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 6 February 2017.

The effect of the Order is to impose a full time 20 mph speed limit on the lengths of the A487 and A40 trunk roads described in Schedule 1 to this Notice and to introduce a part-time 20 mph speed limit on the length of the A487 trunk road specified in Schedule 2.

The full-time 20 mph speed limit is required to improve pedestrian safety due to restricted carriageway and footway widths along the specified lengths of the trunk roads.

The part-time 20 mph speed limit is necessary to reduce the speed of traffic near Ysgol Bro Gwaun and Holy Name Primary School. It will only apply for limited periods of the day during school term time and is not expected to operate at weekends.

During a period of 6 weeks from 31 January 2017 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Fishguard Library, Town Hall, Market Square, Fishguard SA65 9HA or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1271957/1.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **Terfyn cyflymder 20 mya Llawnamser**

Y darn o gefnffordd yr A487 yn Abergwaun, Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 18 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Clive Road hyd at bwynt 70 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Tower Hill, gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol Cylchfan Sgwâr Abergwaun.

Y darn o gefnffordd yr A40 yn Abergwaun, Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 180 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.

### **ATODLEN 2**

#### **Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser**

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw y Byrgam, Abergwaun, Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 55 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Dewi hyd at bwynt 18 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Clive Road.

## **SCHEDULES**

### **SCHEDULE 1**

#### **Full-time 20 mph Speed Limit**

The length of the A487 trunk road at Fishguard, Pembrokeshire that extends from a point 18 metres north-west of the centre-point of its junction with Clive Road to a point 70 metres north-east of the centre-point of its junction with Tower Hill, including the circulatory carriageway of Fishguard Square Roundabout.

The length of the A40 trunk road at Fishguard, Pembrokeshire that extends from a point 180 metres south-west of its junction with Fishguard Square Roundabout to its junction with that roundabout.

### **SCHEDULE 2**

#### **Part-time 20 mph Speed Limit**

The length of the A487 known as Vergam Terrace, Fishguard, Pembrokeshire that extends from a point 55 metres north-west of the centre-point of its junction with Heol Dewi to a point 18 metres north-west of the centre-point of its junction with Clive Road.

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A487 A'R  
A40 (ABERGWAUN, SIR BENFRO) (TERFYN  
CYFLYMDER 20 MYA) 2017**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU**

Mae angen y Gorchymyn i ostwng y terfyn cyflymder ar ddarnau penodedig o gefnffyrdd yr A487 a'r A40 yn Abergwaun, Sir Benfro er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o wrthdrawiadau i gerddwyr ac i wella diogelwch cerddwyr.

Argymhellodd astudiaeth a gyflawnwyd yn rhan o adolygiad o derfynau cyflymder y dylid gosod terfyn cyflymder 20 mya llawnamser ar ddarnau penodedig o gefnffyrdd yr A487 a'r A40 oherwydd bod lled y cerbyttffyrdd a'r troedffyrdd yn gyfyngedig mewn manau penodedig.

Bernir hefyd fod angen terfyn cyflymder 20 mya rhan-amser ar ddarn o'r A487 er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd mewn cysylltiad â symudiadau cerddwyr ger Ysgol Bro Gwaun ac Ysgol Gynradd Gatholig Yr Enw Sanctaidd. Bydd yn gostwng cyflymder traffig ger yr ysgol wrth i'r disgyblion deithio i safleoedd yr ysgolion ac ohonynt. Bydd y terfyn cyflymder rhan-amser yn gymwys pan fydd arwyddion traffig gweithredol yn dangos hynny a dim ond am gyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol y mae hyn yn debygol o ddigwydd ac ni ddisgwylir iddo fod yn weithredol ar benwythnosau.

**THE A487 & A40 TRUNK ROADS  
(FISHGUARD, PEMBROKESHIRE) (20 MPH  
SPEED LIMIT) ORDER 2017**

**STATEMENT OF REASONS**

The Order is required to reduce the speed limit on specified lengths of the A487 and A40 trunk roads in Fishguard, Pembrokeshire in order to decrease the likelihood of pedestrian collisions and improve pedestrian safety.

A study undertaken as part of a speed limit review recommended that a full-time 20 mph speed limit be imposed on certain lengths of the A487 and A40 trunk roads due to restricted carriageway and footway widths at particular locations.

A part-time 20 mph speed limit is also deemed necessary on a length of the A487 to ensure the safety of the public in connection with pedestrian movements near Ysgol Bro Gwaun and Holy Name Primary School. It will reduce the speed of traffic near the schools when pupils are travelling to and from the school sites. The part-time speed limit will apply when indicated by activated traffic signs and this is only likely to be for limited periods of the day during school term time: it is not expected to be in operation at weekends.